

Cofion

Fel y gwelwch o'r dudalen flaen, **estynnwn ein cydymdeimlad** cywiraf heddiw â theulu y diweddar Glenys Williams (Goleufan, Llanefydd gynt). Cyflwynwn y plant, ynghyd â'i brawd R J Davies (Llanfair) i ofal yr Arglwydd, gan sylweddoli eu bod hwy gyda ni yn ymwybodol iawn o fuddugoliaeth yr Efengyl yn arbennig felly yng ngwyneb angau.

Danfonwn ein cofion hefyd at Maria Jones (Groes) sydd wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Abergele, at Gwenfyl Williams (Llanefydd) yn Ysbyty Glan Clwyd, ac at Elsa Evans (Llanefydd) a Menna Streeter (Henllan) sy'n yr Inffirmari. Da deall fod Elwyn Williams (Llansannan) wedi dod adre bellach o'r ysbyty. Cyflwynwn bob un ohonynt i ofal yr Arglwydd. Cofiw'n hefyd am eraill sydd heb fod yn dda y diwrnodau hyn, gan hyderu y byddant i gyd yn profi daioni Duw.

Llongyfarchiadau i Bob a Gretta Edwards (Groes) ar ddathlu eu priodas aur ddydd Gwener diwethaf.

Danfonwn ein cofion hefyd at yr aelodau sydd mewn catrefi preswyl/gofal - Howell Jones (Bryn yr Eglwys); Gwilym Foulkes (Dolwen); Megan Pritchard, Mair Roberts, Morfudd Davies, Hannah Alice Jones, ac Elwyn Roberts (Yr Hen Ficerdy); Kitty Parry ac Aneurin Evans (Park Lodge); Eiddwen Jones, Mita Jones a Myra Hughes (Maes Elwy); Miss W J Roberts (Yr Hen Ddeondy); Jane Jones (Southern House); a Harold Lloyd (Hafan Gwydir).

Hyn ac arall

- Ar **lonawr 9fed**, bydd cynrychiolwyr o'r Henaduriaeth yn dod i gymryd llais pob eglwys yn y Fro ynglŷn â'n dymuniad i alw gweinidog. Ac yna, yn yr hwyr yn Oedfa'r Fro, mi fydd hi'n gyfarfod gollwng, i arwyddo diwedd fy nhymor yma fel gweinidog. Daw mwy o wybodaeth maes o law.
- Mae nifer helaeth o gyhoeddiadau wedi cyrraedd sy'n cyfeirio at y gweithgarwch o amgylch y Nadolig. Mi fydd rhestr lawn yn ymddangos yr wythnos nesaf.
- Yn dilyn sgysiau gyda nifer o drigolion y Fro dros y misoedd diwethaf daeth i'r amlwg bod 'unigedd' a 'darpariaeth o fwyd' yn ddau angen amlwg. Mae cyfle am ginio a sgwrs eisoes ar gael yn y Jangl yn Llansannan bob dydd lau (Olwen Lloyd 870249) ac yn Llanfairtalhaiarn bob yn ail ddydd lau (David ac Alwena Edwards 720386). Cysylltwch gyda'r trefnwyr am fwy o wybodaeth ac os am fynd draw! Mae'n fwriad gan y **Grŵp Gwasanaethu** i ddatblygu ar y ddarpariaeth sydd i bob oed, ac mae cysylltiad wedi ei wneud gydag ysgolion y Fro a lleoliadau y gellir eu defnyddio. Beth am ffonio **Gwenan Roberts, Tyddyn Uchaf ar 540217 neu Haf Evans, Tan y Graig ar 582215** i gael sgwrs bellach ac i nodi eich diddordeb. Plŷsoni wch wrth unrhyw un fyddai'n elwa o bryd o fwyd blasus a sgwrs ddifyr!

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 5^{ed} Rhagfyr 2010

Heno am 6.00

Cadw ein golwg ar Iesu –
y llinell derfyn

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da a chroeso i oedfaon y dydd. Mae'n dda iawn cael dod at ein gilydd heddiw eto, ond, ein gweddi eto fyth yw y bydd Duw yn troi ein cyfarfodydd yn oedfaon, a gwneud hynny drwy roi ei Ysbryd Glân inni yn helaeth.

I'r ffyddloniaid sy'n dod i Oedfa'r Fro, fe wyddoch fy mod ar hyn o bryd yn mynd drwy'r Llythyr at yr Hebreaid, gan edrych yn arbennig ar y rhagoriaeth sy'n perthyn i Iesu. Heno byddaf yn dod at bennod deuddeg, ac yn y bennod honno mae yna adnod sy'n cyfeirio at fraint a chyfrifoldeb y Cristion - '*Felly, gan ein bod yn derbyn teyrnas ddi-sigl, gadewch inni fod yn ddiolchgar, a thrwy hynny wasanaethu Duw wrth ei fodd, â pharch ac ofn duwiol.*' 12:28 Dyma eiriau sy'n cyfeirio at addewid fendigedig inni - mae'r deyrnas y mae'r Cristion am ei etifeddu yn ddi-sigl; tra ar yr un pryd mae yna gyfrifoldeb arbennig yn perthyn inni - mae'r Cristion i fod yn ddiolchgar, yn gwasanaethu *Duwr wrth ei fodd, â pharch ac ofn duwiol.* Daeth y newydd ddiwedd yr wythnos am farwolaeth un oedd, yn fy nhyb i wedi profi'r fraint a'r cyfrifoldeb yma. Er bod Glenys Williams wedi ei magu yn ardal Llanfair a Ffynhonnau, ac wedi symud yn dilyn priodi i fyw i'r Clwt, eto Capel Llanefydd a gweinidogaeth y Capel hwnnw a ddefnyddiodd yr Arglwydd i gynhesu ei chalon i waith gras. Wedi symud i'r cylch cafodd y fraint o fod o dan weinidogaeth y diweddar J Llewelyn Williams, a gyda'i deulu fe welodd hwnnw effeithiau gras ar amryw yn y cylch. Tebyg fod ei blant hefyd yn ddylanwad ysbrydol ym mywydau llawer, a byddai Mrs Williams, fel eraill, yn sôn yn arbennig am ddylanwad Arthur Wyn yn y dosbarth Ysgol Sul ac mewn seiadau. Byddai teithio lawr i Rhyl hefyd yn rhan o'r fendith, gydag ymgyrchoedd y '*National Young Life Campaign*' yn gweld ffrwyth o'i llafur yn yr Arglwydd. Roedd y cyfnod hwnnw ym 50au'r ganrif ddiwethaf yn gyfnod o fendith ysbrydol, a phrofodd Mrs Williams a'i gŵr, Glyn, o'r Llanw hwnnw. Yn fuan, roedd Goleufan, fel ambell i aelwyd arall yn y Llan yn gyrchfan i seiadau amrywiol. Dywedir mai ar fore Llun, tra'r roedd Mrs Williams yn ceisio gwneud y golchi wythnosol, y daeth Elsi Owen i'r tŷ, gan fynnu atebion i'w chwestiynau ysbrydol. O ganlyniad i'r cyfarfod hwnnw, fe olchwyd mwy na dillad, gan y byddai Elsi yn ddiweddarach yn cyfeirio at y cyfarfod fel rhan allweddol yn ei thaith i adnabod Iesu yn bersonol. Gyda llaw, tebyg mai gweld Glyn yn mynd yn gyson am y Capel oedd y sbardun i ddeffro diddordeb ysbrydol yn Nefydd, ei gŵr. Prawf sicr o effaith ei hadnabyddiaeth o Iesu oedd y cyfraniad roddodd nid yn unig i fywyd ei phlant, ond i fywydau cynifer yn yr ardal, ac i fywyd y Capel. Cafodd ei chodi'n flaenor yn 1973, ac yn y cyfan roedd yn ofalus i '*wasanaethu Duwr wrth ei fodd, â pharch ac ofn duwiol.*' Hyd y diwedd roedd oedfaon a seiadau yn parhau i ddal eu gwerth, a'i geiriau olaf i Nerys yn brawf o barhad gras i'r diwedd - *mi fyddaf yn diffodd y golau ar ôl gweddi.* Yn ôl y Salmydd, *Gwerthfawr yng ngolwg yr ARGLWYDD yw marwolaeth ei saint ef 116:15.* D'oes ryfedd felly fod Hebreaid 11 yn sôn am y rhain fel '*rhain nad oedd y byd yn deilwng ohonynt*' ad. 38. Pobl arbennig yn wir!!

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan **am 6.00**. Arweinir yr oedfa gan Ben, bydd Meirion yn pregethu a bydd paned i bawb **yn dilyn yr oedfa**.
- Llun **Adnabod Addoli** yn y Granar am 8.00
- Mawrth **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30
- Mercher **Adnabod beth yw Cristnogaeth go iawn** yn Llansannan am 8.00
- Iau **Cyfarfod Plant** yn Llanefydd am 3.15.
- Gwener **'Posh Nosh' C.I.C.** (Clwb Ieuencid Cristnogol) yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.30
- Sadwrn **Darlithoedd DAWN Cymru** yng Ngholeg y Bala rhwng 9.45 a 4.30. Mwy o wybodaeth ar wefan DAWN Cymru - www.dawncymru.org
- Sul nesaf Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Elen, bydd Meirion yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00. Cyngerdd Nadolig (dan olau kannwyll) gydag 'Enfys' yng Nghapel Cefn Meiriadog am 8.00. Mynediad trwy docyn: oedolion £6, plant ysgol £2 - ar gael gan aelodau'r capel neu 07899 951850. Yr elw tuag at Dŷ Robert Owen, Uned y Galon, Ysbyty Broad Green, Lerpwl.
- Sul nesaf Bydd Meirion yn arwain oedfa'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron **am 11.00**.
- Sul nesaf Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

Cyhoeddiadau

Llansannan

- Sul yma Bydd Meirion yn arwain oedfa Sul y Beibl yn Llansannan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul y plant am 10.00 a'r oedolion am 11.10.
- Llun Pwyllgor Adeiladau am 6.30.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul y plant am 10.00 a'r oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Meirion yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Mr Aled Lewis Evans yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Hugh Pritchard yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 a Chyfarfod Gweddi am 2.00, ac Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00.
- Llun Myfyrdod y Nadolig o dan nawdd Cyfarfod y Chwiorydd yng Nghapel Cefn Berain am 7:00 yng nghwmni Mrs Laura Owen, Trefnant.
- Sul nesaf Bydd Meirion yn arwain oedfa'r daith yn Llanefydd am 10.00. Cynhelir yr Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.15 ac yng Nghefn Berain am 2.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:
Mair - ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536, neu i
Meirion - ✉ meirion@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870601 📞 07554 005423
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau